3408.9.

FFURF GWEDDI,

Liturgies - Church of Ireland. - Occasional Offices
I'W

HARFER PAN YMWELER

A

CHARCHARORION.

WEDI EI CHYFIEITHU O'R SAESONAEG GAN

WEINIDOG Carchar Sir *GAERFYRDDIN.*

CAERFYRDDIN,

ARGRAPHWYD GAN IOAN DANIEL.

M DCC XC.

TO THE

Worſhipful the JUSTICES

OF

The County of CARMARTHEN.

GENTLEMEN,

WHEN you firſt appointed me the Ordinary of the County Goal, the Situation of the poor Wretches ſtruck me very forcibly: Religious Exhortation, Prayer and Comfort, is to no one more neceſſary, than to the Victim, who by his ill Conduct has excluded himſelf from the Converſe of his Fellow Creatures, and forfeited the Benefits of Society. It is ſtrange that the Britiſh Legiſlature, which is ſo very merciful in every Inſtance, has not ſanctioned ſome Forms of Prayer ſuitable to the unhappy Condition of *Priſoners*, when in its excellent Liturgy it has not omitted any one common Situation of Life, without ſupplying proper Collects.

THE Form here offered to your Patronage, has been adopted in a Sister Kingdom*: And the Americans in the Reform of the Liturgy, (if that can be called a Reform, where many Things have been altered for the worse, and very little for the better,) have not left it out.

THIS Form I now humbly present to you, in hopes, that if it should meet your Approbation, your Recommendation may convey it to the other Counties of the Principality, and its Usefulness, if it have any, be not confined to this only.

I am, Gentlemen,

With the greatest Respect,

Your Worships obliged Servant,

The TRANSLATOR.

---

* IRELAND.

Y

DREFN AM YMWELED

A

CHARCHARORION.

¶ *PAN ddarllener Boreuol neu Brydnhawnol Weddi mewn unrhyw Garchar, yn lle'r Salm,* " Deuwch, canwn," &c. *neu'r Salm,* " Fy enaid a fawrha," &c. *y darllenir Salm* 130; *a'r Gweinidog ar ol Colect y Dydd, a eſyd i mewn y Colect yn y Gwaſanaeth caulynol,* " O Dduw, yr hwn wyt yn arbed," &c. *ac ar gyfryw Amſerau a'r na's darllener y* Litani, *ſe a 'chwanega y Weddi,* " Duw Dad trugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu," &c.

¶ *A phan hyſpyſer i'r Gweinidog, fod Carcharor yn cael ei gaethiwo o herwydd rhyw Fai mawr angheuol, efe a ymwel ag ef; a phan ddel efe i'r lle y bo'r Carcharor ynddo, y dywaid, gan oſtwng i lawr ar ei Liniau,*

Na chofia, Arglwydd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhieni; ac na ddyro ddial am ein pechodau: arbed nyni, Arglwydd daionus, arbed dy bobl a brynaiſt â'th werthfawroccaf waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Atteb. Arbed ni, Arglwydd daionus.

Gweddiwn.

Arglwydd, trugarha wrthym.

Criſt, trugarha wrthym.

Arglwydd, trugarha wrthym.

EIN

EIN Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd, Sancteiddier dy Enw; Deued dy Deyrnas; Bydded dy Ewyllys ar y Ddaear, megis y mae yn y Nefoedd: Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol; A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr; Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gweinidog. Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.
Atteb. A chaniatta i ni dy iachawdwriaeth.
Gweinidog. Tro dy wyneb oddiwrth ein pechodau;
Atteb. A dilea ein holl anwireddau.
Gweinidog. Anfon i ni borth o'th ſancteiddfa;
Atteb. Canys y mae dy ddigoſaint yn pwyſo yn drwm arnom.
Gweinidog. Arglwydd, gwrando ein gweddiau.
Atteb. A deued uchenaid y carcharorion ger dy fron.

Y Colect.

CAniatta, ni a attolygwn i ti, Hollalluog Dduw, fod i ni, y rhai a haeddaſom yn gyfiawn gael ein poeni am ein drwgweithredoedd, trwy gonffordd dy ras di allu yn drugarog gael hawſad, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Ieſu Griſt. *Amen.*

ODduw, yr hwn wyt yn arbed pan f'om ni yn haeddu cael ein coſpi, ac yn dy ddigoſaint wyt yn cofio dy drugaredd; nyni yn ufudd a attolygwn i ti o'th ddaioni, gyffuro a nerthu pawb a'r ſydd dan waradwydd a gofid yn nhŷ'r caethiwed; na cherydda hwynt yn dy lidiowgrwydd, ac na choſpa hwynt yn dy lid; dyro iddynt iawn ddealldwriaeth o'u cyflyrau eu hunain, ac o'th fygythion a'th addewidion di; fel nad ymadawont â'u gobaith arnat ti, ac na ddodont eu hymddiried ar ddim arall ond tydi; cynnorthwya y rhai ſydd yn gyfyng arnynt, ymddiffyn y diniweid, a deffro'r euog; ac yn gymmaint ag mai ti yn unig wyt yn dwyn goleuni o dywyllwch, a da o ddrwg, caniatta fod i'r poenau a'r coſpedigaethau y rhai y mae dy weiſion hyn yn eu dioddef trwy garchar corphorol, allu bod yn foddion i ryddhau eu heneidiau o gadwynau pechod; trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yma*

¶ *Yma dichon y Gweinidog, megis y gwelo ef fod yn gymheſur, ddarllain y weddi dros* Bob yſtad o ddynion, *Colect* Merchur y Lludw, *a'r Colect ar ol yr* Offrymiad, *gan ddechreu*, Hollalluog Dduw, ffynnon yr holl ddoethineb, &c. *neu un weddi arall o'r* Liturgi *a farno ef fod yn briodol.*

¶ *Yna cynghored y Gweinidog y Carcharor, neu'r Carcharorion, yn y Ffurf hon, neu'r cyfryw.*

YR anwyl garedig, gwybydd hyn, ddarfod i'r Hollalluog Dduw, yr hwn trwy ei ddiball ragluniaeth ſydd yn llywodraethu pob peth yn y nef a'r ddaear, mor ddoeth ac mor drugarog drefnu chŵyl y byd hwn, fel y mae ei farnedigaethau yn cael eu mynych ddanfon megis tadol geryddon arnom ni; ac os gyd â gwir ufudd-dod ac ymoſtyngiad i'w ſanctaidd ewyllys ef y derbyniwn yr unrhyw, hwy a gyd-weithiant er daioni i ni.

Gan hynny, dy ran a'th ddyled yw, ymoſtwng dy hun dan alluog law Dduw, cydnabod uniondeb ei farnedigaethau ef, ac ymegnio ar fod i'r ymweliad preſennol, trwy ei ras ef, dy dywys i ddiffuant edifeirwch calon.

Y ffordd a'r modd i hynny yw, holi dy fuchedd a'th ymarweddiad wrth reol gorchymynion Duw; a pha le bynnag y gwelych dy fod dy hunan gwedi troſeddu, ar ewyllys, air, neu weithred, yno wylo o herwydd dy gyflwr pechadurus, ac ymgyffeſu i'r Hollalluog Dduw, a llawn fryd ar wellhau dy fuchedd. Ac, os gweli fod dy gamweddau nid yn unig yn erbyn Duw, eithr yn erbyn dy gymmydogion hefyd; yna ymgymmoda â hwy, gan fod yn barod i wneuthur iawn a diwygiad, hyd eithaf dy allu, am bob ſarhad a chamwri a wnaethoſt i neb arall; a chan fod yn barod hefyd i faddeu i eraill a wnaethant i'th erbyn dithau, megis yr ewyllyſi faddeuant o'th bechodau ar law Dduw. Ac at y gwir edifeirwch a'r cyfnewidiad meddwl hwn, mae'n rhaid i ti 'chwanegu ffydd fywiol a diyſgog, ac ymddiried yn haeddiant marwolaeth Criſt, ynghyd â chyflawn ymoſtyngiad i ewyllys Duw. Oni fydd i ti edifarhau, a chredu, nid allwn roddi i ti un gobaith o iachawdwriaeth: ond os wyt ti yn gwir edifarhau ac

yn

yn credu, mae Duw wedi datgan, ped fyddai dy bechodau fel yſgarlad, yn ânt cyn wynned a'r eira; ac er myned o'th gamweddau dros dy ben, etto na'th ddinyſtrir ganddynt.

Gan hynny, yr ydym yn dy gynghori yn enw Duw, a'i anwyl Fab ef Ieſu Griſt ein Iachawdwr, gan dy fod yn dymuno iachawdwriaeth i'th enaid, ar gymmeryd o honot fawr ofal am y pethau hyn mewn amſer, tra parhao dydd iachawdwriaeth; canys y mae'r nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio. Tra fyddo gennyt oleuni, cred yn y goleuni, a rhodia megis plant y goleuni, fel na'th dafler i'r tywyllwch eithaf; fel na bo i ti guro wedi cau'r drws, a llefain am drugaredd, gwedi dyfod o dymmor barn. Yn awr yr wyt yn wrthddrych o drugaredd Dduw, os trwy edifeirwch a gwir ffydd yr ymchweli atto ef: eithr os ti a eſgeuluſi y pethau hyn, ti a fyddi yn wrthddrych o'i farn a'i ddialedd ef: yn awr ti elli gael hawl yn haeddedigaethau Criſt; eithr os marw fyddi yn dy bechodau, ni wna ei ddioddefaint ef ond anghwanegu dy ddamnedigaeth. Yr anwyl garedig, yſtyria yn dy ddydd hwn, mor ofnadwy fydd i ti ſyrthio yn nwylo'r Duw byw, pan nad elli ffoi at drugaredd i gael nodded, nac at haeddedigaethau Criſt i'th ymddiffyn yn y dydd ofnadwy hwnnw.

¶ *Yma yr ymoſyn y Gweinidog ag ef ynghylch ei ffydd, ac yr edrydd fannau'r ffydd, gan ddywedyd fel hyn,*

A wyt ti yn credu yn Nuw, &c.

A'r Carcharor a ettyb,

Hyn oll yr wyf yn ei gredu yn ddilys.

¶ *Yna'r ymoſyn y Gweinidog ag ef, beth ydyw efe ai bod yn wir edifeiriol am ei bechodau, ac mewn cariad perffaith a'r holl fyd ai peidio; ac ymhellach fe a'i rhybuddia yn neillduol mewn perthynas i'r beiau am ba rai y cafodd ef ei gyhuddo; ac a'i cynghora ef, od oes arno unrhyw betruſrwydd cydwybod, ar iddo fynegi'r unrhyw, a pharottoi ei hun i'r Cymmun bendigaid, erbyn yr amſer y bo gweddus ei finiſtrio ef iddo.*

¶ *Yna, a phawb ar eu gliniau, y Gweinidog a ddywaid y Salm* 51.

Trugarha wrthyf, O Dduw, &c.

Gweddiwn.

Gweddiwn.

O Arglwydd, ni a attolygwn i ti, yn drugarog gwrando ein gweddiau, ac arbed bawb a gyffeſant eu pechodau wrthyt; fel y bo i'r rhai y cyhuddir eu cydwybodau gan bechod, trwy dy drugarog faddeuant ſod yn ollyngedig, trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna'r Gweinidog a ddywaid,*

O Dduw, yr hwn ſydd â'i drugaredd yn dragywyddol a'i allu yn anfeidrol, edrych i lawr mewn trugaredd a thoſturi ar ddioddefiadau dy *waſanaethwr hwn:* a pha un ai'th ſod yn ymweled *ag ef*, er profi ei *ddioddefgarwch*, neu er coſpi ei *bechodau*, nertha *ef* â'th ras i ymoſtwng yn llawen i'th ſanctaidd ewyllys di.

Nac ymbellha, O Arglwydd, oddiwrth y rhai a oſodaiſt mewn lle o dywyllwch, ac yn y dyfnder; ac yn gymmaint ag na ddarfu i ti ei *dorri ef* ymaith yn ddiſymmwth, eithr ei *geryddu ef* megis Tad; caniatta ſod *iddo*, gan yſtyried yn ddyledus dy fawrion drugareddau, allu bod yn ddiffuant yn ddiolchgar, ac ymchwelyd attat ti, drwy wir edifeirwch a phurdeb calon, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gweddiau dros y rhai ſo gwedi eu barnu i Farwolaeth.*

¶ *Pan ſo Drwg-weithredwr dan farn Marwolaeth, y Gweinidog a a rhagddo, yn ddioed ar ol y Colect,* "O Dduw, yr hwn wyt yn arbed," &c. *i'w gynghori ef yn y Ffurf hon, neu'r cyfryw.*

YR anwyl garedig, ſe ryngodd bodd i'r Hollalluog Dduw, o'i gyfiawnder, dy ddwyn di dan farn a chondemniad y gyfraith; yr wyt ar fyrder i ddioddef angau yn y cyfryw fodd, ag y bo i eraill, gwedi eu rhybuddio trwy dy wneuthur di yn ſiampl, gael mwy o arſwyd troſeddu; ac yr ydym yn gweddio Duw, ar ſod i ti felly ddefnyddio dy goſpedigaethau yn y byd hwn, fel y byddo dy enaid yn gadwedig yn y byd a ddaw.

Gan hynny, yr y'm yn dyfod attat mewn ymyſgaroedd trugareddau; a chan ddymuno ar fod i ti ochel rhyfyg ar y naill law, ac anobaith ar y llaw arall, ni a gawn eglur oſod ger dy fron, dy druenus gyflwr, a mynegi pa belled y dylit hyderu ar drugareddau Duw, a rhyglyddon ein Iachawdwr. Yſtyria gan hynny yn ddifrifol â thi dy hun, wrth bob tebygoliaeth fod amſer dy ymddattodiad yn neſhau; dy bechodau a gymmeraſant afael ſicr arnat; yr wyt ar frys i gael dy ſymmud o blith dynion trwy angau treiſiol; ti a newidir fel llyſieuyn, yr hwn y boreu a flodeua ac a dyf, eithr y prydnhawn y torrir ef ymaith, ac y gwywa. Ar ol i ti ſelly orphen buchedd reſynol a phechadurus, fe fydd rhaid it' ymddangos ger bron Barnwr pob cnawd; yr hwn, megis y mae'n datgan bendithion ar y cyfiawn, yr un wedd a ddywaid mewn dychrynllyd lef o gyfiawnaf farn wrth y drygionus, " Ewch rai melldigedig i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottowyd i ddiafol ac i'w angylion."

Dy bechodau a'th ddygaſant yn rhy agos i'r farn ofnadwy hon: Gan hynny, *frawd*, dy ran a'th ddyled yw, addef yn oſtyngedig, ac wylo o herwydd dy fawrion a'th aml gamweddau, a gwir edifarhau am dy bechodau; megis yr wyt yn ewyllyſio iachawdwriaeth dragywyddol i'th enaid.

Na thwyller di gan wag ddiſgwyliad rhyfygus o ffafr Duw, ac na ddywed ynot dy hun, Heddwch, heddwch, lle nad oes heddwch; canys nid oes heddwch, medd fy Nuw, i'r annuwiol; ni watworir Duw; mae efe yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar anwiredd, ac heb ſanctteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd: Ar y llaw arall, nac anobeithia o drugaredd Dduw, er fod cyfyngder o bob tu; canys nid yn dragywydd y cau Duw ei drugareddau mewn ſorriant; eithr os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anghyfiawnder. Na fydded i ti mewn un modd gam-arfer daioni Duw, yr hwn ſydd yn drugarog yn galw arnom i wellhad buchedd, ac o'i annherfynol doſturi ſydd yn addaw i ni faddeuant o'r hyn oll a aeth heibio; os â chalon berffaith a chywir yr ymchwelwn atto ef.

Gan hynny, yn gymmaint a'th fod ar fyrder i fyned trwodd i yſtad anorphen ac anghyfnewidiol, a bod dy ddedwyddwch neu'th drueni rhag-

rhagllaw yn ſefyll ar ychydig funudau ſydd yn ol i ti yma; yr wyf yn gorchymyn i ti yn fanol holi dy hunan, a'th gyflwr tu ag at Dduw a dyn; ac na fydded i unrhyw yſtyriaeth fydol dy rwyſtro, rhag gwneuthur o honot wir a chyflawn gyfaddefiad o'th bechodau, a rhoddi pob iawn hyd eithaf dy allu i bob un y gwnaethoſt iddo farhad neu gamwri, megis y bo i ti gael trugaredd ar law dy Dad nefol er mwyn Criſt, ac nid bod yn farnedig ar ddydd y farn ofnadwy.

Yn ddiweddaf, garedig *frawd*; ymoſtwng yn griſt'nogaidd i gyfiawn farn Duw, yr hon a ddygwyd arnat gan dy bechodau dy hun, a bydd mewn cariad â phawb; gan fod yn barod i faddeu o eigion dy galon i bawb a wnaethant i'th erbyn dithau, heb gau allan y rhai a'th ganlynafant, ïe, hyd angau; ac, er y dichon hwn ymddangos yn ymadrodd caled, etto gwybydd yn ſicr, mai hebddo nad yw dy gariad yn berffaith. Ac nac eſgeuluſa lafurio a gweddio yn ddifrifol am y tawelwch a'r tymmer meddwl gwynfydedig hwn: felly boed i ti fwrw dy hun mewn cyflawn hyder ar drugaredd Dduw, trwy haeddedigaethau ein Iachawdwr a'n Pryniawdwr Ieſu Griſt.

¶ *Yma'r ymoſyn y Gweinidog ag ef ynghylch ei ffydd, ac yr edrydd fannau'r ffydd,* " A wyt ti yn credu yn Nuw," &c.

A'r Drwg-weithredwr a ettyb,

Hyn oll yr wyf yn ei gredu yn ddilys.

¶ *Yna'r ymoſyn y Gweinidog ag ef, beth ydyw efe ai bod yn wir edifeiriol am ei bechodau, gan ei gynghori ef i wneuthur cyffes neilltuol o'r pechod o ba un y cafodd ei farnu'n euog; ac ar ol cyffeſu o hono, fe a ddengys ba iawn a ddylai wneuthur i'r rhai y darfu iddo felly droſeddu i'w herbyn; ac os yw ef yn gwybod am unrhyw gyd-fradwriaeth neu ddrwg-weithredoedd yn cael eu hamcanu yn erbyn eraill, bid iddo ei gynghori ef hyd eithaf ei allu i ddatguddio a rhwyſtro'r unrhyw.*

¶ *Ar ol ei gyffes ef, y Gweinidog a ddatgan iddo bardynol drugaredd Dduw, yn y ffurf a arferir* yng wafanaeth y Cymmun.

¶ *Ar ol hynny y dywedir y Colect canlynol.*

O Sanctaidd Iefu, yr hwn o'th anfeidrol ddaioni a dderbyniaiſt droedigaeth y lleidr ar y groes; agor lygaid dy drugaredd ar dy *waſanaethwr* yma, yr *hwn* ſydd yn dymuno gollyngdod a maddeuant, er mai yn ei *awr* ddiweddaf y mae *ef* yn ymchwelyd attat. Adnewydda *ynddo*, beth bynnag a leſghawyd trwy ddichell a malais y cythraul, neu trwy ei *gnawdol* ewyllys ei hun, a'i *wendid*; yſtyria wrth ei *wir* edifeirwch, derbyn ei *ddagrau*; ac, yn gymmaint a'i *fod efe* yn rhoi'r cwbl o'i *ymddiried* yn unig yn dy drugaredd di, na liwia *iddo* ei *bechodau* o'r blaen; eithr nertha *ef* â'th wynfydedig Yſpryd; a phan welych di yn dda ei *gymmeryd ef* oddi yma, cymmer *ef* i'th nodded; a hyn a erfyniwn er mwyn dy ryglyddon di, O Arglwydd, ein Iachawdwr a'n Pryniawdwr bendigedig. *Amen.*

¶ *Yna y dywaid y Gweinidog,*

O Dad y trugareddau, a Duw pob diddanwch; attat ti y rhedwn am gymmorth dros dy *waſanaethydd hwn*, y ſydd yn awr dan farn marwolaeth. Mae dydd ei *aſlwydd* yn agoſhau, a chyfrifwyd *ef* gyd â'r rhai a ddiſgynnant i'r pwll. O wynfydedig Arglwydd, cofia dy drugareddau; edrych ar ei *wendid*; clyw lais ei *wylofain*; dyro *iddo*, ni a attolygwn i ti, amynedd yn ei *amſer* hwn o gyfyngder, a chynnal *ef* dan y dychrynfau ſydd yn ei *amgylchynu ef*; goſod ger bron ei *lygaid* y pethau a wnaed *ganddo* yn y corph, y rhai yn gyfiawn a'th annogaſant di i ddigofaint; ac yn gymmaint a bod yn amlwg nad oes *iddo ef* ond byr amſer i aros gyd â ni, gan hynny bywha *ef* fwyfwy â'th ras, ac â'th Lân Yſpryd; megis y bo *iddo*, wedi ymchwelyd attat, a chael ei *gymmodi* â thydi, cyn darfod i'th farnedigaethau ei *dorri ef* oddiar y ddaear, allu yn awr angau ymadael mewn tangnefedd, a chael ei *dderbyn* i'th dragywyddol deyrnas; trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Gan ddywedyd hyn yn ychwaneg.*

Iachawdwr

IAchawdwr y byd, iacha ni, yr hwn, trwy dy grog a'th werthfawr waed, a'n prynaiſt; achub a chymmorth ni, nyni a attolygwn i ti, O Arglwydd.

¶ *Yna y Gweinidog yn ei ſefyll, a ddywaid,*

YNghanol ein bywyd yr ydym mewn angau; gan bwy y mae i ni geiſio ymwared, ond gennyt ti, O Arglwydd, yr hwn am ein pechodau wyt yn gyfiawn yn ddigllon?

Er hynny, Arglwydd Dduw ſanctteiddiaf, Arglwydd galluoccaf, O ſanctaidd a thrugaroccaf Iachawdwr, na ollwng ni i ddygn chwerwaf boenau angau tragywyddol.

Ti, Arglwydd, a adwaenoſt ddirgelion ein calonnau: na chaua dy gluſtiau trugarog oddi wrth ein gweddiau; eithr arbed nyni, O Arglwydd ſanctteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O ſanctaidd a thrugarog Iachawdwr; tydi deilyngaf Farnwr tragywyddol, na ad i ni, yn yr awr ddiweddaf, er neb rhyw boenau angau, ſyrthio oddi wrthyt.

¶ *Yna y dywaid y Gweinidog,*

YR Hollalluog Arglwydd, yr hwn yw y Tŵr cadarnaf i bawb a roddant eu hymddiried ynddo; i ba un y mae pob peth yn y nef, ar y ddaear, a than y ddaear, yn goſtwng ac yn ufuddhau, a fyddo yr awr hon a phob amſer yn ymddiffyn i ti; ac a wnel i ti wybod a deall, nad oes un enw dan y nef wedi ei roddi i ddynion, yn mha un, a thrwy ba un, y mae i ti dderbyn iachawdwriaeth, ond yn unig enw ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

¶ *Ac ar ol hynny y dywaid,*

IRaſuſaf drugaredd a nodded Duw y'th orchymynwn. Yr Arglwydd a'th fendithio ac a'th gadwo. Llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat, a thrugarhaed wrthyt. Dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat, a rhodded it' dangnefedd, yr awr hon ac yn oes oeſoedd. *Amen.*

¶ *Ar*

¶ *Ar amſer Dihenyddiad, heblaw yr holl Waſanaeth blaenorol, neu gyfryw rannau o hono a farno'r Gweinidog fod yn gymheſur, y dywedir* Y Weddi gymmunol dros Ddyn claf ar drangcedigaeth, *fel y mae gwedi ei chyfleu yn* Ymweliad y Claf.

Colect i Waſanaeth y Cymmun.

O Dduw, yr hwn wyt yn egluro dy hollalluog nerth yn bennaf gan ddangos trugaredd a thoſturi; ni a attolygwn i ti drugarhau wrth dy *waſanaethwr* yma, yr *hwn* am ei *gamweddau* a fwriwyd i'w *golli*. Caniatta fod *iddo* gymmeryd dy farnedigaethau yn oddefgar, a gwir edifarhau am ei *bechodau*; fel, wedi *iddo* gael ei *adferu* i'th ffafr di, y bo i'r gyflog ofnadwy a haeddai ei *weithredoedd*, ddiweddu gyd â'r bywyd hwn, a pha bryd bynnag yr ymadawo ei *enaid* oddiwrth ei *gorph*, y caffo ei gyflwyno yn bur ac yn ddifeius yn dy olwg di, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epiſtol. Heb. 12. 11.

NI welir un cerydd tros yr amſer preſennol yn hyfryd; eithr yn anhyfryd: ond gwedi *hynny* y mae yn rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai ſy wedi eu cynnefino ag ef.

Yr Efengyl. S. Ioan 5. 24.

YN wir, yn wir, meddaf i chwi, y neb ſydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

¶ *Gweddi dros Ddyledwyr Yngharchar.*

O Dduw graſuſaf, edrych i lawr mewn toſturi a thrugaredd ar dy waſanaethwyr cyſtuddiedig yma, y rhai ydynt ofidus gan garchar cyſyng. Dyro iddynt bob amſer iawn ymſynniad ar eu pechodau, ac ar dy dadol gariad â'th geryddon di; a pha mwyaf y bo eu caethiwed yn pwyſo arnynt, mwyaf i gyd y bo cyſſuron dy ras a'th drugaredd

drugaredd di yn amlhau tu ag attynt. Dyro i'w gofynwyr dynerwch a thoſturi, ac iddynt hwythau yſpryd addfwyn a maddeugar tu ag at y rhai a'u goſodaſant yngharchar, ynghyd â llawn fwriad ar wneuthur iawn am yr holl gamwedd a'r colledion a oddefodd eraill o'u hachos hwy. Cyſod iddynt gyfeillion i doſturio wrthynt ac i'w rhyddhau; dyro iddynt waſtadol gyſſur dy wynebpryd yma; ac felly ſancteiddia eu cyſtuddiau, megis y gallont weithredu iddynt dragywyddol bwys gogoniant; trwy haeddedigaethau a chyfryngdod dy Fab Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

DIWEDD.